# Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2022

**337 - Beirniadaeth Rhyddiaith Bl. 2 ac iau - 'Diwrnod da'**
**Beirniad: Sian Mererid**

Diolch am y gwahoddiad i gloriannu'r gystadleuaeth bwysig hon. Diolch i'r rhieni, athrawon ac unrhyw rai fu'n cymell a sbarduno. Ond yn bennaf i chi'r 17 cystadleuydd am roi cipolwg i mi ar eich 'diwrnod da'.
Mwynheais hanesion tegannau meddal yn diflannu, llys deinosor mewn gardd, gêm pêl droed Cymru, crempog siocled i frecwast a thrip i'r traeth; cymaint o ddarluniau difyr.
Yn y dosbarth cyntaf gosodaf 22110409, 22120380 a 22114606 gyda 21103805, 22119077 a 21103804 yn dod i'r brig.
Caiff 21103805 drydydd am ysgrifennu hyderus i gofnodi amser da yn y parc a'r darlun o Taid yn 'chwyrnu'n braf ar y soffa' yn ddiweddglo annwyl.
22119077 sy'n ail a'i ddiwrnod bythgofiadawy yn gwylio'r Scarlets. Ceir yma sillafu gofalus, dewis ansoddeiriau pwrpasol - 'stadiwm enfawr', 'teimlad anhygoel' ac yntau'n 'rhedeg mor gyflym â llewpart' dros dîm Crymych o flaen y sêr cenedlaethol.
Yn gyntaf daw 21103804. O'r darlleniad cyntaf, apeliodd naturioldeb yr ysgrifennu a hoffais y modd y daw personoliaeth yr awdur i'r wyneb. Gwaith cryno sy'n symud yn drefnus o'r naill ddarlun i'r llall, o hanes carreg Bica i'r hiwmor pan yn sôn am wylan farus Cei Bach; gafael da ar iaith ac yn defnyddio'r synhwyrau i greu effaith 'cranc yn clecian ar hyd y tywod' a'r 'dolffiniaid yn gwichian'. Mae strwythur i'r ysgrifennu a'r cyfan yn fyw iawn. Nid rhyfedd dy fod 'ar ben dy ddigon' ar y cwch yn Llangrannog - codi awydd mawr arnaf i ymuno â thi!
Llongyfarchiadau!
Daliwch ati i 'sgwennu i gyd.

1af - Osian Jones
2il - Osian James
3ydd - Sara Jones